

Swyddog Prosiectau Newydd PNSB

Mae Partneriaeth Natur Sir Benfro (PNSB) wedi sicrhau cyllid ar gyfer swyddog prosiectau dros dro i gyflawni ein rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a datblygu prosiectau ar gyfer y dyfodol. Mae'n dda gennym groesawu Aethne Cooke i'n plith!

Dechreuodd Aethne fel gwirfoddolwr gydag Ymddiriedolaeth Natur Dyfnaint ac mae wedi bod yn gweithio yn y sector cadwraeth natur ers hynny, yn bennaf gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru a thros y blynyddoedd diwethaf ar ei liwt ei hun. Mae ganddi flynyddoedd lawer o brofiad fel arolygwr rhynglanw ac o gomisiynu prosiectau i ddarparu gwybodaeth am statws cynefinoedd a rhywogaethau'r môr.

Meddai Aethne, "Dechreuais â'r bwriad o ddilyn gyrfa ym maes cadwraeth ar y tir, ond fe newidiais gyfeiriad a mynd i faes amgylchedd y môr rywle ar hyd y ffordd. Edrychaf ymlaen at gwblhau'r cylch a gweithio gyda Phartneriaeth Natur Sir Benfro a'r bobl sy'n rhan o wneud gwahaniaeth i fyd natur yn Sir Benfro".

Os oes gennych chi syniadau ar gyfer prosiectau lleol ac os hoffech gael cymorth i'w datblygu yna cysylltwch ag Aethne (aethne.cooke@pembrokeshire.gov.uk) neu â mi (Anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk).

Ant Rogers
PNSB



Aethne Cooke

PEMBROKESHIRE NATURE PARTNERSHIP



PARTNERIAETH NATUR SIR BENFRO

Cyrol 18 Rhifyn 1
Gwanwyn/Haf 2021

Yn y rhifyn hwn

Swyddog Prosiectau Newydd PNSB
Tudalen 1

Grŵp Adar Sir Benfro
Tudalen 2

Parcmon Newydd i Dde Orllewin Sir Benfro
Tudalen 2



Hwyaid yr Eithin yn Nyfrffordd
Aberdaugleddau
Tudalennau 2—3

Adnabod â Chodau Bar DNA yn Datgelu
Cofnodion Newydd ar Lefelau Lleol a
Chenedlaethol
Tudalen 4



Diweddariad Tyfu Cysylltiadau Gwell
Tudalennau 4—5

Cofnodi Cacwn: Cymru – ble mae cacwn Sir
Benfro?

Tudalen 6



Apêl Gwyllt Am Goetiroedd yn Parhau i Dyfu
Tudalen 7



Manylion Cysylltu
Tudalen 8

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437776146

Tudalen 1



Grŵp Adar Sir Benfro

Un o'r (ychydig) agweddau cadarnhaol ar y cyfyngiadau symud oedd cael amser i ailwampio ac estyn Pembrokeshire Avifauna – y wefan am adar yn Sir Benfro (<https://pemsavifauna.co.uk/>). Bydd hwn wastad yn waith ar y gweill, gan bod pethau'n newid o un flwyddyn i'r llall, felly mae wastad mwy i'w ychwanegu. Yn ogystal â'r testunau am rywogaethau o brif Atlasau Adar Sir Benfro, cer digonedd o ddetholiadau o'r adroddiadau adar sirol – dyddiadau cyntaf a diwethaf mudwyr, er enghraifft, a'r holl gofnodion o rywogaethau prin.

Rydym hefyd wedi bod wrthi'n cynhyrchu Dyddiadur Adar Sir Benfro – podlediadau misol byr â darluniau, y mae pob un ohonynt yn dangos uchafbwyntiau gweithgarwch gwyllo adar yn y mis hwnnw: <https://www.youtube.com/playlist?app=desktop&list=PLyWN9zt1fis9vfjDMegnVnJioGVI4a-J>.

Annie Haycock
Grŵp Adar Sir Benfro



Llun: Trevor Theobald

Parcmon Newydd i Dde Orllewin Sir Benfro

Helo, Vicky Sewell ydw i, Parcmon newydd Ardal y De Orllewin gyda Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Rwyf wir yn edrych ymlaen at ddod i adnabod yr ardal brydferth hon a'r bobl



Vicky Sewell

sy'n byw yma yn well. I'r rheiny ohonoch yr wyf eisoes wedi cwrdd â chi, diolch am eich croeso cynnes ac i'r rhai nad wyf wedi cwrdd â chi eto, rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at gwrdd â chi!

Rwy'n gwasanaethu Ardal y De Orllewin sy'n ymestyn o Nolton Haven o amgylch Penrhynau Marloes a Dale, ar draws mor bell ag Aberdaugleddau yn ogystal â glannau gorllewinol Moryd y Ddau Gledau i fyn mor bell â Phont.

Rhan o'm rôl yw gweithio gyda chymunedau a chynnig cymorth i wirfoddolwyr yn ogystal â thywys a monitro gweithgareddau hamdden, twristiaeth a rheoli ymwelwyr. I gysylltu â mi anfonwch neges e-bost i: vickys@pembrokeshirecoast.org.uk neu ffoniwch 07866771123

Vicky Sewell
APCAP



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Hwyaid yr Eithin yn Nyfrffordd Aberdaugleddau

Sylw ffwrdd-â-hi gan Jack Donovan, y cofnodwr adar sirol ar gyfer Sir Benfro yn y 90au cynnar y mae coffa annwyl amdano, blannodd yr hedyn cyntaf ar gyfer syniad i arolygu Hwyaid yr Eithin sy'n bridio yn yr haf ym moryd Aberdaugleddau. Ni wastraffwyd yr awgrym ar Jane Hodges, ecolegydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar y pryd, a buan iawn y cynhaliwyd yr arolwg cyntaf o lawer.

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437776146

Tudalen 2



Bron i 30 mlynedd yn ddiweddarach mae arolygon systematig o Hwyaidd yr Eithin sy'n bridio yn yr haf yn y foryd wedi parhau bob blwyddyn ers hynny mewn cwch, gwasanaeth gwerthfawr a ddarperir gan Borthladd Aberdaugleddau. Ceir dau eithriad pan fu'n rhaid arolygu'r foryd ar droed – y cyntaf yn 2015 am bod yr injan wedi methu ac yn fwy diweddar yn 2020 oherwydd pandemig y coronafeirws. Er bod Jane wedi ymddeol, mae wedi parhau i arolygu Hwyaidd yr Eithin sy'n bridio bob blwyddyn yn y foryd ac hi fu'r unig arolygwr trwy gydol y cyfnod.

Hwyaden yr Eithin lawn dwf yn hedfan
Llun: Mike Camplin



Roedd arolygon o boblogaethau Hwyaidd yr Eithin sy'n bridio yn yr haf yn un o'r cyntaf o gyfres o brosiectau amgylcheddol hirhoedlog i gael eu hariannu gan Grŵp Cadw Golwg Amgylcheddol ar Ddyfrffordd Aberdaugleddau (MHWESG: <https://www.mhwesg.org.uk/>) yn ôl yn y 90au cynnar. Ceir arolygon niferus o boblogaethau Hwyaidd yr Eithin sy'n gaeafu o amgylch y DU, ond mae arolwg MHWESG o'r boblogaeth sy'n bridio yn yr haf yn 'unigryw i Gymru', yn ôl Ymddiriedolaeth Adareg Prydain (BTO: <https://www.bto.org/>) y gofynnodd MHWESG iddi adolygu'r set ddata ar gyfer Hwyaidd yr Eithin. Canfu BTO fod tueddiadau o ran niferoedd Hwyaidd yr Eithin ym moryd Aberdaugleddau'n cydberthyn yn dda â thueddiadau osgiladu cenedlaethol yn ystod y gaeaf ar gyfer Hwyaidd yr Eithin mewn rhannau eraill o Gymru a'r DU. Mae hyn yn awgrymu ei bod yn debygol yr effeithir ar y boblogaeth leol gan yr un ffactorau ar raddfa fawr ag sy'n effeithio ar boblogaethau cenedlaethol, er enghraifft y newid yn yr hinsawdd.

Dywedodd Paul Howells (Dragon LNG Ltd a chadeirydd MHWESG) fod "astudio Hwyaidd yr Eithin sy'n bridio yn yr haf yn y foryd wedi creu set ddatafaith a fydd, os parheir â hi, yn galluogi ymchwilydd yn y dyfodol i asesu a dehongli effaith newid amgylcheddol yn y foryd. Rydym yn cael budd yn awr o'r rhagweledigaeth a oedd gan aelodau o MHWESG bron i dri degawd yn ôl i ddeall perthnasedd monitro hirdymor".

Caiff Hwyaidd yr Eithin ym moryd Aberdaugleddau eu hadnabod fel rhai sy'n rhan o boblogaeth fridio gogledd orllewin Ewrop. Mae Hwyaidd yr Eithin yn mudo o'u tir bridio yn ystod yr haf (h.y. Dyfrffordd Aberdaugleddau) i leoliad bwrw plu, ac yna yn ôl i'w gwlad fridio ar gyfer y cyfnod pan nad ydynt yn bridio yn ystod y gaeaf. Ni roddir modrwyon ar Hwyaidd yr Eithin yn Nyfrffordd Aberdaugleddau i wybod i ble y mae Hwyaidd yr Eithin lleol yn mudo ym mis Gorffennaf cyn eu bod yn dychwelyd yn y gaeaf, ond mae tiroedd bwrw plu hysbys ar gyfer Hwyaidd yr Eithin yng ngogledd orllewin Ewrop yn cynnwys moryd yr Elbe ym Môr Wadden a morydau mawr eraill yn y DU. Bu moryd Aberdaugleddau'n hanesyddol yn dal niferoedd cenedlaethol bwysig o Hwyaidd yr Eithin sy'n gaeafu ym Mhrydain Fawr gyda chyfrif brig cymedrig dros bum mlynedd o 1,564 rhwng 1982/83 a 1986/87. Gostyngodd y cyfrif hwn i 387 rhwng 2014/15 a 2018/19 (387) gan olygu nad yw'r niferoedd yn gymwys fel rhai cenedlaethol bwysig mwyach.

Aethne Cooke
Cyddlynnydd Prosiectau
MHWESG
mhwesg@gmail.com



Hwyaidd yr Eithin ym moryd Aberdaugleddau
Llun: Brian MacFarlane



Adnabod â Chodau Bar DNA yn Datgelu Cofnodion Newydd ar Lefelau Lleol a Chenedlaethol.

Diolch i gefnogaeth gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro mae Rhwydwaith Cofnodi Ffyngau Sir Benfro (PFRN) wedi gallu bwrw ymlaen ag adnabod casgliadau o ffyngau dros gyfnod y gaeaf gan ddefnyddio codau bar DNA. Echdynnwyd DNA o gasgliadau wedi sychu o ddeunydd a chafodd y cwmplas cod bar ei fwyhau. Cafodd yr ampliconau canlyniadol eu hanfon ymlaen i Brifysgol Aberystwyth ar gyfer dilyniannu fel rhan o brosiect a ariennir gan Gymdeithas Fycolegol Prydain.

Mae dau ganfyddiad nodedig o gasgliadau Sir Benfro wedi dod i'r fei yn barod:

Y cofnod cyntaf yn y sir ar gyfer *Hygrocybe constrictospora*. Canfuwyd y casgliad hwn ar GNG Ystangbwl ac fe'i cadarnhawyd gan ddefnyddio cod bar DNA. Mae sbesimenau'n debyg iawn i rywogaeth a gofnodwyd yn eang, sef *Hygrocybe insipida*, ond gellir eu gwahanu trwy archwilio'r sborau'n ofalus â microsgopeg. Fel y mae'r enw'n ei awgrymu, mae'r rhan fwyaf o sborau *H. constrictospora* yn dangos culhad bach i'r siâp sydd fel arall yn oblong neu silindraidd. Ceir rhagor o fanylion am y canfyddiad hwn yng nghylchlythyr Gwanwyn 2021 gan PFRN (www.pembsfungi.org.uk).



Y cofnod cyntaf yn y DU ar gyfer *Clavulina etrusiae*. Canfuwyd casgliad *Clavulina* mewn coetir ar bwys Hundleton yn 2018 nad oedd yn cyd-fynd yn dda ag allweddi a disgrifiadau presennol ar gyfer y genws. Datgelodd proses ddiweddarach i ddilyniannu'r casgliad ei fod yn cynrychioli rhywogaeth nad oedd wedi cael ei disgrifio tan yn ddiweddar o'r Eidal. Mae erthygl sy'n darparu manylion y canfyddiad yn eu crynswth wedi cael ei chyflwyno i'r cyfnodolyn Field Mycology i gael ei chyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

David Harries
PFRN



Diweddariad Tyfu Cysylltiadau Gwell

Mae'r prosiect Tyfu Cysylltiadau Gwell wedi cael gaeaf prysur! <https://www.cwmarian.org.uk/gbc>

Mae staff y prosiect wedi bod yn cydgysylltu lansiad y **prosiect CLEAN ar Afon Nyfer** (Rhwydwaith Gweithredu Amgylcheddol ar Lefel Dalgylch) o darddiad yr afon ger y Frenni Fach, i'r afon yn Nhrefdraeth, sy'n amcanu at ymateb i her adfer a gwella cynefinoedd iach yn ac ar hyd afonydd Sir



Sir Benfro. Mae rhwydwaith o sefydliadau cadwraeth natur a chymunedol wedi cael ei ffurfio i wneud y gwaith hwn – gan gynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru, Partneriaeth Natur Sir Benfro, Grŵp Amgylchedd Ardal Trefdraeth, Cyngorau Cymuned a Genweirwyr Nyfer.

Rhwng mis Chwefror a mis Mawrth fe wnaeth dros 20 o wirfoddolwyr, o'r sefydliadau hynny ac o blith y cymunedau rhyfeddol o ymroddedig ar lannau'r afon yn yr ardal, gymryd samplau o ddŵr a chasglu data arolwg arsylwadol i sefydlu gwybodaeth sylfaenol am gyflwr iechyd ecolegol presennol yr afon. Bydd y data a gasglwyd y gwanwyn hwn yn goleuo gwaith sefydliadau cadwraeth a chymunedol yn y dyfodol i ganfod sut orau i bennu ffocws yr hyn y maent yn ei wneud i wella lles yr afonydd a'r bobl sy'n byw yn agos atynt. Gallwch ddarganfod mwy trwy ddarllen y blog yma: <https://www.cwmarian.org.uk/post/clean-rivers-project-on-the-afon-nyfer> . .

Fel rhan o'r gyfres o ddigwyddiadau **Coedwigoedd Lleol i Bobl Leol** gan Tyfu Cysylltiadau Gwell, rydym wedi creu ffilm fer i ysbrydoli unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwybod mwy am sut i fod yn rhan o goetir cymunedol – neu sefydlu un. Mae'r ffilm yn rhoi rhai enghreifftiau difyr o rym gweithredu cymunedol gan bobl yng Nghymru sy'n deall o brofiad ymarferol pam fod rheolaeth

gymunedol ar goetiroedd lleol mor bwysig. Mae coetir cymunedol yn golygu: pobl gyffredin yn gwneud pethau eithriadol, yn adhawlio eu tirweddau ac yn dod â hwy dan stiwardiaeth gymunedol, yn cofio eu treftadaeth ac yn llunio gweledigaeth newydd ar gyfer eu dyfodol, gan daro cydbwysedd rhwng natur, swyddi, cymuned a mynediad at dir. Gwylwch y ffilm hon i gael eich ysbrydoli i greu lleoedd y byddwch am fod ynddynt bob dydd, sydd hefyd yn diwallu anghenion pobl eraill yn eich cymuned leol.

Mae'r blog yma'n dweud mwy wrthydh:
<https://www.cwmarian.org.uk/post/local-woods-for-local-people> a gallwch wyllo'r fideo ar ein sianel YouTube: <https://www.youtube.com/watch?app=desktop&v=39sG9lys0lc&feature=youtu.be>

Ac yn olaf... cawsom ddiwrnod hyfryd yn yr heulwen ger Tegryn yn ddiweddar, gyda staff Tyfu Cysylltiadau Gwell a helpwyr yn plannu rhai o fwy na **3,500 o goed perthi** a fydd yn cael eu plannu diolch i'r prosiect. Mae ein gwaith cysylltiadau tirwedd gyda pherthi eleni hefyd yn cynnwys dros 500 metr o ffensys newydd a llwybr caniataol newydd ger y Frenni Fawr – mwy am hyn yn nes ymlaen yn y gwanwyn!

Holly Cross

Tyfu Cysylltiadau Gwell
holly@cwmarian.org.uk



Cofnodi Cacwn: Cymru – ble mae cacwn Sir Benfro?

Mae ar yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn angen eich help chi i ganfod cacwn yn Sir Benfro a'r tu hwnt.....

Mae Sir Benfro'n gartref i rai cacwn arbennig iawn. Mae gennym 23 o'r 24 o rywogaethau sydd i'w cael yn y DU, gan gynnwys rhai o'r rhywogaethau mwyaf prin. Ym mrynau'r Preseli, mae gennym un o'r cacwn mwyaf prydfarth ym Mhrydain – cacynen y llus (*Bombus monticola*). Ar y glaswelltiroedd sy'n gyfuriog o flodau ar arfordir y de, mae gennym un o'r poblogaethau olaf sy'n weddill o'r gacynen sydd fwyaf dan fygythiad yn y DU, sef y gardwenynen fain (*Bombus sylvarum*).

Cacynen y Llus
Llun: Clare Flynn



Mae cacwn yn olygfa gyfarwydd a phoblogaidd mewn gerddi ac mae ganddynt rôl hollbwysig yn y broses beillio, ond mae'r rhan fwyaf wedi bod yn gostwng mewn nifer yng Nghymru, yn union fel pob man arall. Maent yn parhau i wynebu pwysau gan gynnwys colli eu cynefinoedd sy'n gyfuriog o flodau, defnyddio cemegolion niweidiol, a'r newid yn yr hinsawdd.

Y cam cyntaf tuag at warchod poblogaethau cacwn yn llwyddiannus yw gwybod ble maen nhw'n dal i fodoli, a faint sydd ar ôl. Ond ar gyfer nifer o rywogaethau yng Nghymru, ychydig iawn o ddata cyfoes sydd gennym ar hyn – **mae arnom angen rhagor o wybodaeth ar frys am rai a welwyd.**



Gwirfoddolwyr arolygu brwdfrydig
Llun: Clare Flynn

Prosiect newydd gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn yw **Cofnodi Cacwn: Cymru** (2021-2024), a ariennir yn hael gan Sefydliad Moondance. Trwy gyfrwng diwrnodau hyfforddi a mentora sy'n canolbwyntio ar adnabod a monitro, byddwn yn helpu pobl i ddod yn gofnodwyr cacwn, ar gyfer cynllun gwyddoniaeth dinasyddion yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, BeeWalk, ac ar gyfer cofnodi cacwn yn fwy cyffredinol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau cadwraeth eraill a grwpiau diddordeb arbennig yn ogystal â chofnodwyr sy'n bodoli eisoes (rhowch wybod inni os hoffech fod yn rhan o hyn!) er mwyn cynnwys monitro cacwn yng nghynlluniau rheoli gwarchodfeydd natur a safleoedd arbennig eraill. Yn Sir Benfro byddwn yn gweithio gyda'r Parc Cenedlaethol i ddechrau ond rydym yn gobeithio cyflwyno hyfforddiant i grwpiau eraill wrth i'r prosiect ddatblygu. Bydd darganfod safleoedd newydd ar gyfer y rhywogaethau mwy prin fel rhywogaeth brydfarth cacynen y llus, y gardwenynen fain sydd dan fygythiad a rhywogaethau prin eraill yn rhan arwyddocaol o nodau'r prosiect hefyd.

Os hoffech chi fod yn rhan o'r prosiect neu gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'n swyddog prosiect ar gyfer Cofnodi Cacwn: Cymru, yn

Clare.Flynn@bumblebeeconservation.org neu dilynwch ni ar Twitter @buzzingwales

Clare Flynn
Yr Ymddiriedolaeth
Cadwraeth Cacwn



Apêl Gwyllt Am Goetiroedd yn Parhau i Dyfu

O goedwigoedd i wrychoedd cyfansawdd, dyffrynnoedd arfordirol i berllannau a chaeau, mae ein coed dan fygythiad ac mae angen mwy ohonynt arnom yn ein tirwedd. Ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro rydym yn disgwyl colli o leiaf 90% o'r holl ynn. Mae ynn hefyd yn elfen allweddol o goetiroedd Sir Benfro ac yn un o'r coed perthi mwyaf cyffredin.

Mewn ymateb i'r bygythiad hwn, sefydlwyd apêl Gwyllt Am Goetiroedd Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i blannu a gwarchod 1,000 yn ychwanegol o goed y mae eu dirfawr angen. "Mae arnom eisiau creu coridorau newydd o goetiroedd ledled y Parc Cenedlaethol i fywyd gwyllt dyfu a ffynnu. O Gollen i Dderwen, Helygen i Griafole mae'r coed hyn yn darparu cartrefi, bwyd, amddiffyniad a chysylltiadau ar gyfer y bywyd gwyllt o'n cwrdd. Mae coed hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth wneud iawn am ein carbon a'r effaith niweidiol yr ydym ni fel bodau dynol wedi'i gael ar ein tirwedd werthfawr." (Elsa Davies LVO, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Arfordir Penfro)

Bydd y prosiect yn mynd i'r afael â bygythiadau allweddol i gyflwr ffiniau, coed a

choetiroedd traddodiadol. Bydd hefyd yn codi ymwybyddiaeth o werth y cynefinoedd hyn. Codwyd £4,500 hyd yma gyda chymorth gan y darlunydd y mae ei gwaith wedi bod ymhlith y llyfrau sy'n gwerthu orau, Millie Marotta, sy'n darparu taflen liwio unigryw i bawb sy'n cyfrannu. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i'r rhai sydd wedi cyfrannu hyd yn hyn ac fe hoffai'r Ymddiriedolaeth ddiolch i The Greener Camping Club a'i aelodau, sydd wedi cyflwyno 250 o goed o stoc leol tuag at y prosiect.

I wneud cyfraniad ar-lein ac i gael rhagor o wybodaeth am bartneriaeth yr Ymddiriedolaeth gyda Millie Marotta, ewch at y dudalen ganlynol: <https://ymddiriedolaetharfordirpenfro.cymru/sut-gallwch-chi-helpu/gwyllt-am-goetiroedd/>

Elusen newydd yw Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a ninnau wedi lansio yng ngwanwyn 2019. Mae gennym feddwl mawr o gadwraeth, cymuned, diwylliant a'n harfordir ac mae arnom eisiau arwain y ffordd o ran eu diogelu. Mae arnom eisiau helpu i gadw popeth sy'n arbennig ac yn unigryw am dirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yma i genedlaethau'r dyfodol. Gwefan: <https://ymddiriedolaetharfordirpenfro.cymru/>

Jessica Morgan

support@pembrokeshirecoasttrust.wales



Llun: Trevor Theobald



Cylchlythyrau Natur

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PNSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PNSB

- Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth, Ant Rogers, Ffôn – 01437 776 146 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Natur Sir Benfro gwefan: <https://www.sir-benfro.gov.uk/bioamrywiaeth>
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PNSB

